COFNODION CYFARFOD O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DYDD GWENER, 26 MAI 2023, AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | M J Evans | D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins |
| I M Spiller | T Thomas | AJ Williams | E D Winstanley |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Jones

Cynrychiolwyr Cofrestredig

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Aelod Cabinet Addysg |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Susan Roberts | Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion |
| Michelle Hatcher | Rheolwr Grŵp Cynhwysiant a Gwella Ysgolion |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp Strategaeth Fusnes a Pherfformiad |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp Gwaith Integredig a Chymorth i Deuluoedd |
| David Wright | Rheolwr Grŵp Cefnogaeth Grwpiau Agored I Niwed |
| Clara Seery | Rheolwr Gyfarwyddwr - Consortiwm Canolbarth y De |
| Darren Jones | Prif Bartner Gwella - Consortiwm Canolbarth y De |
| Natalie Gould | Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol |
| Nicole Goggin-Jones | Prifathro – Ysgol Gynradd Nantyffyllon |
| Mike Street | Prifathro – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-Fai |

16. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 1 a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

17. CYNLLUN STRATEGOL Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD 2023-2026

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi cyfle i'r Pwyllgor weld a chynnig sylwadau ynghylch y fersiwn drafft o Gynllun Strategol 2023-2026 y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwahoddedigion a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- Y 15 thema strategol a nodwyd sy'n sail i'r cynllun strategol tair blynedd, gan drafod:
  - Naratifau'r themâu hynny
  - Y dangosyddion llwyddiant: sut y cawsant eu mesur yn gywir, a safoni prosesau ar gyfer ysgolion
  - Y manylion yn y cynllun a sut y cyflawnwyd themâu, a'r cymorth a gynyddwyd
  - Dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd
  - Data wedi'u cydgrynhoi er mwyn cymharu
  - Hyfforddi Swyddogion
- Presenoldeb disgyblion, lefelau absenoldeb, perchnogaeth presenoldeb a chyfrifoldeb.
- Modiwlau hyfforddi statudol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion a hyfforddiant ychwanegol sydd ar gael a pha un ai a ddylai mwy o hyfforddiant fod yn orfodol.
- Ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn rhai adeiladau ysgol hŷn, cynnydd mewn biliau cyfleustodau a pha gymorth oedd ar gael.
- Cynnydd o ran hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith pobl iau ac oedolion, ystyried cyflwyno dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg, dyhead yr Awdurdod Lleol i gynyddu nifer y dysgwyr yn eu hysgolion cyfrwng Cymraeg a darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol.
- Canllawiau hunanwerthuso CAMG a sut y gallai statws pob thema wella dros gyfnod y cynllun strategol.
- Y galw am wasanaethau cwnsela i blant a rhieni a'r amseroedd aros, cymorth arbenigol i'r dysgwyr hyn a'r dadansoddiad mapio a chanfod bylchau a gynhaliwyd i weld pa gymorth a oedd ar gael ac i nodi unrhyw fylchau.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd rhagor o gwestiynau gwahoddedigion i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd y gallent adael y cyfarfod

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yn fanwl a thrafod ag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, cynigiodd y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD GWENER, 26 MAI 2023**

1. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch cadw staff ysgolion a'u llesiant. Fe wnaethant drafod pwysigrwydd y cymorth a gâi disgyblion ar gyfer eu llesiant ac roeddent yn credu y dylai llesiant staff fod yn flaenoriaeth gyfartal. Argymhellodd yr aelodau y dylid cryfhau'r naratif ynghylch y cymorth ar gyfer staff yn ***T1 Lles disgyblion a staff*** i adlewyrchu hyn.

2. Yn ystod trafodaethau ynghylch presenoldeb disgyblion a lefelau absenoldeb, gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r rhesymau dros absenoldeb a nifer yr absenoldebau ac fe wnaethant argymell y dylid cynnyws y rhain yn y Cynllun.

3. Fe wnaeth yr aelodau ystyried y dangosyddion llwyddiant yn ymwneud â ***T2 Cymorth ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion*** a phwysleisiwyd na fyddai asesu cynnydd tuag at gyflawni'r amcan 'gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol' yn ystyrlon oni byddai pob ysgol yn cadw at y Polisi Presenoldeb Ysgolion i sicrhau cysondeb. Argymhellodd yr Aelodau y dylid cyfeirio at Bolisi safonol ynghylch Gwaharddiadau yn y Cynllun i gynnig sicrwydd o ran y data a ddarperid a sicrhau y gellid mesur y gwelliannau yn gywir.

4. Argymhellodd yr aelodau y dylid cynnws mwy o fanylion penodol yn y Cynllun ynghylch sut y gellid mynd ati'n flynyddol i fesur yr uchelgais ar gyfer cwblhau'r modiwlau hyfforddi statudol gan Lywodraethwyr Ysgol a darparu gwaelodlin yn y Cynllun i amlygu'r targed i'w gyflawni.

5. Nododd yr aelodau'r cynllun i gynyddu'r gefnogaeth i rieni sydd â phlant bregus o dan ***T3 Cymorth i blant a phobl ifanc bregus*** ac argymhellwyd y dylid cynnwys rhagor o fanylion yn y Cynllun ynghylch sut i gyflawni hyn, sut y gellid mesur y cymorth presennol a sut i sicrhau bod y cymorth yn cynyddu yn y dyfodol.

6. Trafododd yr Aelodau sut oedd fideo a gynhyrchwyd gan Ysgol Gyfun Brynteg mewn perthynas â ***T5 Y Cwricwlwm i Gymru ac asesu*** yn cynnig dealltwriaeth well o'r cwricwlwm newydd ac fe wnaethant argymell y dylai fod gael i ysgolion eraill ac i'r Aelodau eu hunain.

7. Trafododd yr aelodau bwysigrwydd y modiwl hyfforddiant diogelu ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion ac fe wnaethant gynnig argymhelliad i gynorthwyo'r Gyfarwyddiaeth i annog Llywodraeth Cymru i ystyried ei wneud yn ofyniad statudol.

8. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch cynnydd posibl mewn biliau cyfleustodau a'r effaith ar ddisgyblion, oherwydd cyfleusterau hen ffasiwn mewn ysgolion hŷn presennol. Er bod yr Aelodau'n nodi bod adnewyddu a chynnal a chadw ysgolion hŷn o fewn cylch gorchwyl y Tîm Eiddo ac nid y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd, argymhellwyd y dylid parhau i gyfeirio at hyn yn y Cynllun.

9. Trafododd yr aelodau ***T14 Cynllun Strategol Effeithiol ynghylch y Cymraeg mewn Addysg i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg Gymraeg*** ac roeddent yn credu ei bod yn ymddangos bod yr amcan wedi'i deilwra ar gyfer dysgwyr iau ac i wella siaradwyr Cymraeg ac argymhellwyd y dylid ehangu'r amcan gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion uwchradd.

10. Mynegodd yr aelodau bryder y byddai, heb ddiffiniadau o’r tair rhan wedi’u rhifo ym mhob cam o’r statws CAMG ((Coch (anfoddhaol), Ambr (digonol), Melyn (da) a Gwyrdd (ardderchog)), yn anodd deall y meini prawf ar gyfer y sgorau uchaf, canol ac isaf ym mhob statws CAMG. Argymhellodd yr aelodau y dylid ailystyried y canllawiau hunanwerthuso CAMG ac y dylid cynnal trafodaeth â phartneriaid i sicrhau bod y targedau a osodwyd yn gyflawnadwy, er enghraifft, uchelgais i gyflawni sgôr o 8 erbyn Awst 2026 gan gychwyn â sgôr cyfredol o 4 yn ***T2 Cymorth ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion*** a 9 erbyn Awst 2026 gan gychwyn â sgôr cyfredol o 6 yn ***T5 Y Cwricwlwm i Gymru ac asesu*** ac enghreifftiau eraill yn y Cynllun.

Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

11. Dadansoddiad manwl o'r grantiau unigol pan fyddai’r holl grantiau wedi'u cyfuno ac ar gael, ac fe wnaeth y Swyddogion gynnig gwneud hynny, gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau ynghylch goblygiadau ariannol yr adroddiad yn cynnwys y grantiau allanol a chyllid cyfalaf a ddisgwylid ar gyfer 2023-24.

12. Y data dienw ar gyfer y Rhaglen Bwyd am Hwyl a gasglwyd o’r flwyddyn flaenorol a’r data a oedd ar gael o’r flwyddyn, pan fyddent ar gael, i alluogi Aelodau’r Pwyllgor eu cymharu, ac fe wnaeth y Swyddogion gynnig darparu hynny i Aelodau mewn ymateb i gwestiynau’r Aelodau ynghylch pa un ai a oedd cofnodion wedi’u cadw ynghylch cyfranogwyr y rhaglen Bwyd a Hwyl o dan 'Llwyddiannau hyd yn hyn' ac 'Amcanion Gwella' ***T1 Llesiant Disgyblion a Staff***, a beth oedd y cynlluniau at y dyfodol.

13. Ffigurau a data ynghylch hyd amseroedd aros i weld cwnselwyr mewn ysgolion, ac fe wnaeth Swyddogion gynnig darparu hynny mewn ymateb i bryderon Aelodau ynghylch hyd amseroedd rhestrau aros i weld cwnselwyr mewn ysgolion, er nad oedd Swyddogion yn ymwybodol bod y rhestrau aros yn rhai sylweddol.

14. Data diweddar o’r monitro blynyddol a wnaed gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, ac fe wnaeth y Swyddogion gynnig darparu hynny mewn ymateb i sylwadau’r Aelodau ynghylch ***T1 Llesiant disgyblion a staff*** yn yr adroddiad a oedd yn amlinellu’r cymorth a oedd wedi’i sefydlu ers tro gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg ac yn amlygu rôl cymorth â llesiant emosiynol a chymdeithasol y Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a’u hyfforddiant parhaus, gan ofyn a oedd y rolau’n cael eu cyflawni gan staff penodedig a pha un ai a oedd staff o’r fath ym mhob ysgol.

15. Cysylltiadau gan Gonsortiwm Canolbarth y De ynghylch y gwasanaeth llesiant staff a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

16. Mwy o wybodaeth ynghylch pryd roedd Swyddogion yn disgwyl cyflawni’r amcan yn **T4 Cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol** a oedd yn nodi y byddai 60 o Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion.

17. Mewn perthynas â ***T11 Cynnig gofal plant a blynyddoedd cynnar effeithiol***, manylion amserlen mewn perthynas â sefydlu Dechrau’n Deg

a pha ddarparwyr gofal plant a oedd wedi'u cynnwys ledled y Fwrdeistref Sirol.

18. Diweddariad ynghylch recriwtio staff i weithio mewn clybiau brecwast a cheginau ysgolion.

Cynigion ynghylch Rhaglen Waith y Dyfodol
Gofynnodd yr aelodau am gael cynnwys y canlynol yn Rhaglen Waith y Dyfodol ac y dylid ystyried eu hamserlenni.

- Diweddariad ynghylch proses y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar ôl cynnal y gwerthusiad.
- Diweddariad ynghylch uwchraddio adeiladau ysgolion presennol - rhestr o opsiynau a fyddai'n cael ei llunio ar ôl cwblhau adolygiadau ardal i'w hadrodd i'r Bwrdd Strategol Moderneiddio Ysgolion a'u hasesu.
- Adroddiad ynghylch ***T13 Cynnig dysgu oedolion yn y gymuned ystyrlon*** - gan nodi y dylai'r Pwyllgor archwilio'r adroddiad yn fanylach ac archwilio adroddiad y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a fyddai ar gael, yn dilyn arolygiad, ym Mehefin 2023.
- Byddai adroddiadau arolygu rheoleiddio a adroddid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu priodol chwe mis yn ddiweddarach er mwyn monitro gweithredu'r argymhellion o'r adroddiadau a chynnydd y cynlluniau gweithredu dilynol.

Adroddiad gwybodaeth
Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y cymorth o ran llesiant plant ac roeddent yn credu y byddai'n gyfrifol ac yn rhagweithiol sicrhau bod gwasanaethau yn eu lle a'u bod ar gael yn ddi-oed i'r plant a'r rhieni yr oedd arnynt eu hangen. Dywedodd swyddogion fod ystod eang o gymorth ar gael ac fe wnaethant drafod y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant emosiynol yr oeddent wedi'i dreialu ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Byddai ail flwyddyn y prosiect yn cychwyn yn fuan, felly byddai dadansoddiad yn cael ei gynnal o ddata yn deillio o'r cynllun peilot pe bai'r Pwyllgor yn dymuno cael adroddiad gwybodaeth i'w ystyried, pe bai angen hynny, fel un o eitemau Rhaglen Waith y Dyfodol.

18. ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Fe wnaeth y Swyddog Craffu gyflwyno'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod yn Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel gwahoddai yng nghyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau, ac yna,

PENDERFYNWYD: Y dylid enwebu'r Cynghorydd Richard Collins i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 fel Gwahoddai yng nghyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

19. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:43.